**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, TAI AC ASEDAU**
**13 HYDREF 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 13 Hydref 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Brian Lloyd a Kevin Rush

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd David Wisinger (ar ran David Cox)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y Cynghorwyr: Patrick Heesom, Haydn Bateman, Paul Johnson a Christine Jones fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Prif Weithredwr, Y Cynghorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol; Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Uwch Reolwr Tai ac Asedau, Rheolwr Budd-Daliadau, Rheolwr Gwasanaethau Rhaglen Tai, Uwch Reolwr Tai ac Atal, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Tîm Perfformiad Busnes, Swyddog Budd-daliadau, y Pen-cyfrifydd, Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned a'r Uwch Syrfëwr.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

## 12. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 13. COFNODION

Cynigodd y Cynghorydd Geoff Collet fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac eiliodd y Cynghorydd Kevin Rush hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 14. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol a'r adroddiad olrhain camau gweithredu a dywedodd fod y ddau gam gweithredu a oedd wedi codi o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau.

Dywedodd yr Hwylusydd fod argymhelliad wedi'i wneud mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Adferiad, sef fod y risgiau portffolio a nodir yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu priodol. Y risgiau a nodwyd ar gyfer y Pwyllgor hwn oedd rhai yn ymwneud ag Ôl-Ddyledion Rhent, Digartrefedd a Deunyddiau Crai. Dywedodd y byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad diweddaru ar Rhent Tai a Diwygo Lles yng nghyfarfod mis Rhagfyr, gyda diweddariad ar lafar gan y Prif Swyddog ar ddeunyddiau crai yn cael ei ystyried yng nghyfarfod

heddiw.  Byddai'n cysylltu â'r Swyddogion priodol i sicrhau bod adroddiad am Ddigartrefedd wedi'i ychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol ar ôl y cyfarfod.

Cafodd yr argymhellion, fel a amlinellwyd yn yr adroddiad, eu cynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'u heilio gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi cynnydd y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 15. <u>CYLLIDEB 2022/23 – CAM 2</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Weithredwr (Tai ac Asedau) adroddiad am ail gam y gyllideb a oedd yn rhoi manylion y rhagolygon a'r pwysau o ran costau a fyddai'n arwain at ofynion cyfanswm y gyllideb.

Roedd adroddiad i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Gorffennaf yn rhoi diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Roedd y pwysau costau a nodwyd wedi eu cyfeirio at y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol gyda chais eu bod i gyd yn cynnal adolygiad trwyadl.  Roedd manylion y pwysau costau i Addysg ac Ieuenctid wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) wedi darparu cyflwyniad manwl a oedd yn trafod y meysydd canlynol:-

- Pwrpas a chefndir
- Crynodeb o Gyfansymiau Pwysau Costau
- Pwysau Costau'r Portffolio Tai ac Asedau 2022/23
  - Pwysau Tai ac Asedau
- Datrysiadau Strategol
- Y wybodaeth ddiweddaraf am effeithlonrwydd
- Amserlenni Cyllideb

Soniodd y Rheolwr Budd-Daliadau am Ostyngiadau Treth y Cyngor a dywedodd eu bod wedi gweld cynnydd sylweddol o ran gwariant.  Ychwanegodd fod llawer iawn o gefnogaeth sylweddol ar fin dod i ben (cynllun ffyrlo a chredydau treth) a fyddai'n cael effaith.  Rhoddodd y Rheolwr Budd-Daliadau drosolwg i'r Pwyllgor am lefel y risg a amlygwyd a dywedodd y byddai effaith sylweddol o ran Credyd Cynhwysol a bod y gwasanaeth ar gyfer y cynllun wedi'i gynyddu i ddarparu mesurau cynhwysfawr i helpu gyda chyngor a chymorth i'r cyhoedd ac incwm aelwydydd.

Soniodd y Rheolwr Budd-Daliadau hefyd am y cynllun ‘Help You’ ar gyfer tenantiaid y Cyngor a chymorth â thanwydd oherwydd y cynnydd o ran prisiau tanwydd a’r grant ar gyfer caledi tenantiaeth.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a’u heilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi pwysau costau’r Portffolio Tai ac Asedau; a

(b) Nad yw'r Pwyllgor yn cynnig unrhyw feysydd arbed costau pellach i’w harchwilio ymhellach.

## 16. PROSBECTWS ANGHENION TAI SIR Y FFLINT

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a’r Rheolwr Gwasanaethau Rhaglen Tai y Prosbectws o Anghenion Tai ar y cyd, a fyddai’n llywio Rhaglen y Grant Tai Cymdeithasol.

Roedd Llywodraeth Cymru (LlC) wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol ddatblygu Prosbectws o Anghenion Tai. Nod y prosbectws oedd llywio cyflenwi tai fforddiadwy, llunio’r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol trwy nodi beth oedd blaenoriaethau’r Awdurdod Lleol a darparu canllaw am pa fath o dai oedd eu hangen ym mha leoliadau.

Dywedodd y Prif Swyddog fod LlC wedi dyrannu’r Grant Tai Cymdeithasol ar sail swm pro-rata’r dyraniad Cymru gyfan. Dywedodd fod y dyraniad ar gyfer Cyngor Sir y Fflint wedi cynyddu’n sylweddol ar gyfer 2021/22.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson a’i eilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cynnwys Prosbectws o Anghenion Tai Sir y Fflint yn cael ei nodi.

## 17. POLISI GRANT CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) a’r Rheolwr Budd-Daliadau y polisi diwygiedig a’r grant dewisol newydd. Fel rhan o adolygiad Archwilio Mewnol o’r gwasanaeth Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl ym mis Mehefin 2018, nodwyd bod angen cynnal adolygiad o’r polisi presennol er mwyn sicrhau bod y broses a’r manylion yn fwy clir a haws i’w deall.

Amlinellodd y Rheolwr Budd-Daliadau newidiadau i’r polisi newydd ac eglurodd fod y broses wedi’i symleiddio’n fawr ar gyfer gwneud cais am grant £36,000 ar sail cyfnod 5 mlynedd o argymhellion gan arbenigwyr fel Iechyd Galwedigaethol. Ychwanegodd nad oedd prawf modd ar gyfer plant, ac nad oedd prawf modd ar gyfer unrhyw waith oedd i’w wneud dan £10,000. Roeddent hefyd wedi dileu’r gofyniad ecwiti ar gyfer grant atodol, ac roedd grantiau adleoli o hyd at £20,000 ar gael o hyd.

Dywedodd y Rheolwr Budd-Daliadau wrth y Pwyllgor fod amserlenni Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer addasu wedi'u mabwysiadu a lle'r oedd y gwaith a wnaed wedi'i gofnodi fesul nifer dyddiau o'r blaen, byddai'n cael ei drefnu yn unol â LlC bellach, a byddai'r geiriad yn newid i fisoedd/wythnosau.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod y grant yn aros ar £36,000.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Geoff Collett a'i eilio gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r polisi diwygiedig a'r grant dewisol newydd.

**18. CYNNYDD Y CYNLLUN CARTREFI GWAG YN SIR Y FFLINT**

Cyflwynodd y Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned adroddiad i ddarparu trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Cartrefi Gwag. Rhoddodd gyflwyniad ar y cyd â'r Swyddog Datblygu a oedd yn cwmpasu'r canlynol:

- cyd-destun
- cyflawniadau ers 2019
- astudiaethau achos

Dywedodd y Cadeirydd fod nifer y cartrefi gwag fel pe bai'n uchel, ond ychwanegodd fod safon y gwaith ailwampio'n ardderchog. Ychwanegodd yr Uwch Syrfëwr fod y ffigurau ar gyfer nifer yr eiddo gwag wedi dod o ffigurau Treth y Cyngor. Dywedodd hefyd eu bod wedi defnyddio ymchwilydd preifat ardderchog i nodi perchnogion cartrefi, a bod landlordiaid preifat yn aml yn rhan o'r datrysiad.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd David Wisinger am eiddo gwag yn ardal Glannau Dyfrdwy, dywedodd yr Uwch Syrfëwr fod gwaith yn mynd rhagddo ar nodi datrysiad i sicrhau bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio eto.

Gan ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Adele Davies-Cooke, dywedodd yr Uwch Syrfëwr fod pob eiddo'n cael ei werthu mewn arwerthiant i sicrhau'r pris gorau posibl ar unrhyw adeg.

Gofynnodd y Cynghorydd Ron Davies a oedd sylw'n cael ei roi i adeiladau gwag ynghyd â chartrefi gwag. Dywedodd yr Uwch Syrfëwr mai dim ond eiddo preswyl gwag oedd yn cael eu targedu oherwydd nad oedd digon o adnoddau yn y tîm i fynd i'r afael ag eiddo masnachol.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Veronica Gay a'i eilio gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 19. CYFLENWADAU DEUNYDD CRAI

Soniodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) am yr effaith roedd Covid a Brexit wedi'i chael ar gyflenwyr, a'i bod wedi creu, ac yn parhau i greu, llawer o bwysau ar gyfer gweithgareddau a gwaith gan gynnwys effaith ar gyflymder adeiladu a chost adeiladu. Er enghraifft, roedd costau pren a ffenestri wedi cynyddu 30-40% yn y farchnad bresennol, ac roedd yr amseroedd aros ar gyfer cydrannau lifftiau wedi cynyddu o 12 wythnos i hyd at 30 wythnos. Roedd effaith fawr wedi bod ar gludo nwyddau hefyd, gyda phrinder gyrwyr loriau a pha mor gyflym allai nwyddau gyrraedd y Wlad.

Dywedodd fod y sefyllfa'n debygol o dawelu o fewn y 12/18 mis nesaf a dywedodd fod Swyddogion yn adolygu pob prosiect ar hyn o bryd er mwyn nodi pa rai fyddai'n parhau a pha rai fyddai'n gorfod cael eu hoedi.

Cynigiodd y Cynghorydd Ron Davies fod y Pwyllgor yn teimlo sicrwydd fod y risg o ran cyflenwadau deunydd crai yn cael ei rheoli. Eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Kevin Rush.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn teimlo sicrwydd fod y risg o ran cyflenwadau deunydd crai yn cael ei rheoli.

## 20. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.20am)

..............................

**Y Cadeirydd**